

Cwestiynau Ysgrifenedig y Cynulliad i'w hateb ar 14 Mawrth 2007

R – Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.

W – Yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

(Dangosir rhif gwreiddiol y Cwestiwn mewn cromfachau)

Gofyn i'r Gweinidog dros Fenter, Arloesi a Rhwydweithiau

Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru): A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am gyfran y pŵer a ddaw o ffynonellau ynni adnewyddadwy yng Nghymru. (WAQ49849)

John Marek (Wrecsam): Pa gynlluniau sydd gan y Gweinidog i sicrhau bod pob gweithiwr ym maes adeiladu sy'n gweithio ar brosiectau mawr yng Nghymru wedi cael ei hyfforddi ac yn meddu ar y pasportau diogelwch perthnasol cyn cael gweithio. (WAQ49855)

Gofyn i'r Gweinidog dros Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau

Peter Black (Gorllewin De Cymru): A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am y ddarpariaeth gwyddoniaeth ym Mhrifysgolion Cymru. (WAQ49851)

Trish Law (Blaenau Gwent): A oes gan y Gweinidog unrhyw gynlluniau i ddyrannu cyllidebau ysgolion yn uniongyrchol i ysgolion, yn hytrach na thrwy Awdurdodau Addysg Lleol. (WAQ49582)

Gofyn i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

Jenny Randerson (Canol Caerdydd): A oes gan y Gweinidog unrhyw gynlluniau i frechu menywod ifanc yn erbyn canser ceg y groth. (WAQ49853)

Dai Lloyd (Gorllewin De Cymru): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddyled Comisiwn Iechyd Cymru a ragwelir ar gyfer y flwyddyn ariannol gyfredol. (WAQ49856)

Dai Lloyd (Gorllewin De Cymru): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y cronfeydd sydd ar gael gan Gomisiwn Iechyd Cymru ar gyfer y flwyddyn ariannol gyfredol, ac ar gyfer y flwyddyn nesaf, i dalu am driniaethau newydd. (WAQ49860)

Rhodri Glyn Thomas (Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr): Ac ystyried y rhaglen Moderneiddio Gyrfaedd Meddygol; a wnaiff y Gweinidog roi manylion unrhyw gynlluniau sydd ganddo i adolygu'r ffordd y caiff swyddi hyfforddi eu rhannu. (WAQ49858)

Helen Mary Jones (Canolbarth a Gorllewin Cymru): Ar gyfer pob ardal BILL; a wnaiff y Gweinidog roi manylion cyfanswm y gwariant deintyddol ar gyfer pob chwarter yn ystod

blwyddyn ariannol 2006/07, ac yn ogystal y refeniw a gesglir drwy gyfraniadau cleifion a sut yr oedd hyn yn cymharu â'r amcangyfrifon gwreiddiol. (WAQ49857)

Dai Lloyd (Gorllewin De Cymru): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddyled cronedig Comisiwn Iechyd Cymru. (WAQ49859)

Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am yr Arweiniad a ddarperir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i staff a rhieni ynghylch trin plant ysgol sydd â llau pen. (WAQ49861)

Gofyn i'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio

Carl Sargeant (Alun a Glannau Dyfrdwy): A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am sut y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn gwneud cymunedau'n fwy diogel yng Nghymru. (WAQ49850)

Alun Cairns (Gorllewin De Cymru): Pa ystyriaeth y mae'r Gweinidog wedi'i roi yn yr adolygiad o'r arian a ddyrennir gan Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru, Cynllun Grant Iechyd Meddwl Lleol a'r Cynllun ar gyfer Pobl Anabl o ran diogelu cyllid mudiadau gwirfoddol annibynnol bach, fel Mind Abertawe, sy'n cefnogi'r rheini sydd â phroblemau iechyd meddwl. (WAQ49854)